

Pitsa melon dŵr

Rysáit sydyn a hawdd ar gyfer y dyddiau poeth yn ystod yr haf. Defnyddiwch gyfuniad o ffrwythau, wedi'u torri'n ddarnau i'w rhoi ar eich pitsa.

Cynhwysion:

- Melon dŵr
- 1-2 o botiau o'ch hoff iogwrt
- Gwahanol ffrwythau, wedi'u torri'n ddarnau



YN Y GEGIN - Pitsa melon dŵr

Dull:

- Torrwch y melon dŵr yn ofalus yn ddisgiau
- Taenwch yr iogwrt dros y disg melon dŵr fel y saws ar bitsa
- Nawr addurnwch y pitsa gyda'ch dewis o ffrwythau
- Torrwch y disg yn ddarnau i bawb eu mwynhau

AWGRYM GWYCH:

Gofynnwch i'ch plentyn helpu drwy addurno eu 'darn pitsa' eu hunain

